



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyflwr yr Ystad

Effeithlonrwydd a pherfformiad amgylcheddol ystad weinyddol Llywodraeth Cymru 2022-2023



Cynnwys

1. Cyflwyniad	3	Atodiad 1:	11
		Data allweddol ar gyfer swyddfa yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2023	
2. Perfformiad yr Ystad	5	Atodiad 2:	12
Effeithlonrwydd	5	Arbedion wedi'u cyflawni o eiddo a adawyd yn ystod 2020, 2021, 2022 a 2023	
Maint a Chostau Rhedeg	6		
3. Effeithlonrwydd Amgylcheddol	7	Atodiad 3:	14
Ynni	7	Crynodeb o Berfformiad 2020, 2021, 2022 a 2023	
Gwastraff	7		
Dŵr	8	Atodiad 4:	16
Perfformiad Amgylcheddol	8	Crynodeb o Berfformiad Eiddo Arbenigol yr Ystad	
Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos	9		
4. Edrych i'r Dyfodol	10		

1. Cyflwyniad

Mae ymrwymiad o hyd i ystad o swyddfeydd ar wasgar ledled Cymru, gan gefnogi economi gryfach a thecach, a galluogi staff i weithio'n nes at eu cartrefi neu o'u cartrefi.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i gyfyngu i adrodd ar feincnodau allweddol ar gyfer perfformiad amgylcheddol a chost.

Mae Strategaeth 10 mlynedd Gweithle'r Dyfodol (2020-2030) yn nodi fframwaith o egwyddorion lefel uchel i lunio cynlluniau ar gyfer y dyfodol, er mwyn sicrhau'r cysondeb strategol, y perfformiad o ran ansawdd a'r defnydd gorau posibl o'r Ystad Weinyddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen i ddarparu adeiladau sy'n addas ar gyfer ffyrdd newydd o weithio hyblyg a chydweithredol, gan gydnabod y bydd staff yn gweithio i ffwrdd o'r swyddfa'n amlach ac yn defnyddio ein gofod busnes mewn ffordd wahanol. Rydym wedi sefydlu nod ar gyfer 50% o staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio o bell, ac mae'n gosod y safon ar gyfer cynllunio gofod sy'n cynnwys 5 gweithfan i bob 10 aelod o staff. Ategir hyn gan angen cynyddol am ofod gweithio cydweithredol ac ymdrech tuag at 'un ystad gyhoeddus' a nodweddir gan gydweithio â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus i gyd-leoli.

Mae canolbwyntio ar gefnogi canol trefi, trafniadaeth gyhoeddus a chynaliadwy a chynaliadwyedd ein hadeiladau yn parhau i fod yn ysgogwyr allweddol ar gyfer llunio ystad y dyfodol. Mae ein heffaith amgylcheddol yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn technolegau cynaliadwy i leihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, lleihau gwastraff a gwella bioamrywiaeth. Mae ymgorffori dulliau hyblyg o weithio i ddarparu ar gyfer polisiâu a thueddiadau sy'n galluogi patrymau gweithio mwy cyfunol yn awgrymu bod angen math gwahanol o ofod swyddfa.

Serch hynny, bydd cyfyngiadau ariannol yn parhau i fod yn sbardun allweddol ar gyfer penderfyniadau.

Bydd opsiynau ar gyfer cau neu newid swyddfeydd yn parhau i gynnwys staff ac Undebau Llafur mewn dadansoddiad manwl o'r costau a'r manteision, wrth i gyfleoedd godi.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r data perfformiad amgylcheddol ac effeithlonrwydd allweddol ac yn cymharu'r rhain â ffigurau cyfatebol ar gyfer y strategaeth flaenorol.

Dyma'r dangosyddion allweddol:

Maint a chostau rhedeg yr ystad	Rhent ¹ Ardrethi Busnes Costau Eraill
Effeithlonrwydd y gweithle	£ fesul swydd cyfwerth ag amser llawn (FTE) Metrau sgwâr (m sg) fesul FTE
Perfformiad Ynni fel Tystysgrif Ynni i'w Harddangos (DEC)	
Perfformiad amgylcheddol ar gyfer allyriadau CO ² ; cynhyrchu gwastraff ac ailgylchu, a defnyddio dŵr.	

Mae'r ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar effeithlonrwydd y swyddfeydd gweithredol craidd a ddelir yn yr ystad ar 31 Mawrth 2023. Mae'r swyddfeydd hyn yn cael yn cael eu nodi yn Atodiad 1.

Mae eiddo arbenigol wedi'u heithrio o'r ffigurau effeithlonrwydd costau a nodir ym mhrif gorff yr adroddiad. Mae manylion yr eiddo arbenigol hyn ar gael yn Atodiad 4.

¹ Rhoddir rhent tybiannol i swyddfeydd rhydd-ddaliadol. Adolygwyd rhenti ar 31 Mawrth 2020.

1.1 Yr Ystad Weinyddol


Mae'r Ystad yn darparu 68,669 metr sgwâr o ofod gweithio a chyfarfod sy'n fodern ac yn hyblyg ar gyfer 5,736 o staff, tenantiaid a chontractwyr cyfwerth ag amser llawn, ar 31 Mawrth 2023.

Mae'r 15 swyddfa graidd yn cynnwys prif ganolfannau Parc Cathays Caerdydd, Rhyd-y-Car Merthyr Tudful, Rhodfa Padarn Aberystwyth a Sarn Mynach Cyffordd Llandudno. Mae swyddfeydd ac adeiladau eraill wedi'u lleoli ledled Cymru i sicrhau presenoldeb gwasgaredig ac i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion busnes (Ffigur 1).

Mae'r data ategol wedi'u nodi mewn Atodiadau i'r adroddiad:

- **Atodiad 1:** Data allweddol ar gyfer swyddfa yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2023.
- **Atodiad 2:** Arbedion wedi'u cyflawni o eiddo a adawyd yn ystod 2020, 2021, 2022 a 2023.
- **Atodiad 3:** Crynodeb o Berfformiad 2020, 2021, 2022 a 2023.
- **Atodiad 4:** Crynodeb o Berfformiad Eiddo Arbenigol yr Ystad.

Ffigur 1: Lleoliad Swyddfeydd yr Ystad Weinyddol



2. Perfformiad yr Ystad

Parhaodd y rhan fwyaf o'r staff i weithio o bell yn ystod 2022-2023. Y dystiolaeth yw bod cyfran uwch yn gwneud hynny'n rheolaidd.

Mae ffigurau perfformiad yn seiliedig ar y dybiaeth bod yr holl staff a chontractwyr yn gweithio o'u sylfaen gytundebol drwy gydol y flwyddyn.

2.1 Effeithlonrwydd

Mae Bloc C yn Heol Picton, Caerfyrddin yn dal yn wag. Nid oes mo'i angen mwyach ac mae wrthi'n cael ei farchnata. Mae ansicrwydd ynghylch patrymau gweithio tymor hir wedi bod yn ffactor yn y ffaith bod y gofod swyddfa hwn yn parhau i fod yn wag.

Yn gyffredinol, roedd maint yr Ystad Weinyddol graidd yn aros ar 68,669 metr sgwâr, ond disgwylir y bydd mwy o le yn cael ei roi i bartneriaid yn y sector cyhoeddus y flwyddyn nesaf.

Mae'r angen i wasgaru staff ledled Cymru yn cyfyngu ar gyfleoedd i gau rhagor o swyddfeydd. Fodd bynnag, mae opsiynau i ganfod y 'maint cywir' yn cael eu hystyried yn weithredol drwy ddatblygu achosion busnes, arfarnu buddsoddiadau ac ymgynghori â Staff ac Undebau Llafur wrth i gyfleoedd fel cymalau terfynu neu derfynu lesuedd godi. Wrth i arferion gweithio o bell ddod yn fwyfwy cyffredin, rhagwelir y bydd natur yr ystad o swyddfeydd yn newid ymhellach a bydd mwy o gyfleoedd am arbedion effeithlonrwydd yn codi.

Mae cyfleoedd i gyd-leoli, naill ai drwy osod gofod dros ben neu adleoli gweithrediadau Llywodraeth Cymru mewn adeiladau cyhoeddus eraill yn parhau i gael eu harchwilio. Cynyddodd y diddordeb gan ddarpar ddeiliaid yn ein prif hybiau yn ystod 2022-2023.

Mae'r broses o resymoli cynlluniau wedi'i gynnal ar gymhareb o 5 FTE i 10 gweithfan, ac 8 metr sgwâr fesul gweithfan.

Mae'r ffigurau perfformiad allweddol ar gyfer yr ystad yn ei chyfanrwydd wedi'u nodi isod. Mae dadansoddiad fesul adeilad ar gael yn Atodiad A.

2.2 Maint a Chostau Rhedeg

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023	Newid 31 Mawrth 2022-2023
Cyflwr yr Ystad					
Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad	76,181	69,850	68,669	68,669	0%
Nifer yr Eiddo	17	15	15	15	0%
Cost Ystad (miliynau)	£20.42	£18.413	£18.80	£18.95	0.76%

	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023	Newid 31 Mawrth 2022-2023
Effeithlonrwydd					
Cost fesul FTE	3,778	3,337	3,329	3,304	-0.75%
Cost fesul metr sgwâr	268.04	263.31	273.90	275.98	0.75%
Metr sgwâr fesul FTE	14.1	12.6	12.2	12	-1.6%

3. Effeithlonrwydd Amgylcheddol

Mae'r newid mewn patrymau gweithio a ddaeth yn sgil y pandemig yn dal i gael effaith ar y defnydd o wasanaethau cyn covid a'r gwastraff a gynhyrchir, gan gynnwys yr hyn sydd ar gael i'w ailgylchu. Mae maint y gwastraff i ynni wedi cynyddu, tra bod maint y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi wedi lleihau. Cynhyrchir llai o garbon a defnyddir llai o nwy ar draws yr ystad.

3.1 Ynni

- Gostyngiad yng nghanran gros yr allyriadau tCO₂e eo **3.6%** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Cynydd o **8%** yn y defnydd o drydan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Gostyngiad o **8%** yn y defnydd o nwy o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Dechreuwyd mesurau arbed ynni ar 31 Tachwedd 2022, a oedd yn helpu i sicrhau arbedion ynni o 398 Mwh hyd at 31 Mawrth 2023, o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol.

- Er bod costau ynni wedi cynyddu'n sylweddol, llwyddwyd i wrthbwyso cost o **£40k**.

Roedd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn canllawiau'r diwydiant ar weithredu ei systemau adeiladu'n ddiogel, sy'n cynnwys system awyru awyr iach llawn a dim ailgylchredeg aer llonydd.

3.2 Gwastraff

- Cynyddodd gwastraff o 72 tunnell yn 2021-2022 i 74 tunnell yn ystod 2022-2023. Mae hyn oherwydd bod gweithwyr yn raddol dychwelyd i'r swyddfa o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, pan oedd y mwyafrif helaeth o weithwyr yn gweithio gartref.

- Gostyngodd swm y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi i 0.5% o'r cyfanswm o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan oedd yn 2% o'r cyfanswm.
- Cafodd 81% o gyfanswm y gwastraff ei ailgylchu. Mae hyn yn gynydd o'r flwyddyn flaenorol, lle cafodd 66% ei ailgylchu.

3.3 Dŵr

Bu cynnydd bach yn y defnydd o ddŵr i 2.9 m³ y pen wrth i swyddfeydd weld mwy o staff a chontractwyr ar y safle.

3.4 Perfformiad Amgylcheddol


Mae manylion allyriadau nwyon tŷ gwyr, y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu a'r defnydd o ddŵr ar yr Ystad Weinyddol i'w gweld isod:

Perfformiad Amgylcheddol	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023	Newid 2022-23
Cyfanswm Allyriadau (t CO ₂ e)	5376	4236	3713	3,500	3,000	2,890	-3.67%
Trydan (t CO ₂ e)	4259	3193	2647	1,896	1,500	1,542	2.8%
Nwy (t CO ₂ e)	1117	1043	1066	1,604	1,400	1,348	-3.71%
Cyfanswm gwastraff (Tunelli)	350	372	284	50	72	74	2.78%
Tirlenwi (% o'r cyfanswm)	12	1	1	2	2	0.5	-75%
Ailgylchu (% o'r cyfanswm)	88	88	82	69	66	81	22.7%
Gwastraff i Ynni (% o'r cyfanswm)	-	11	17	29	14	17.5	25%
Dŵr (metrau ciwbig/person/y flwyddyn)	6.3	6.2	5.6	2.1	2.5	2.9	16%

3.5 Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos – 8 safle uchaf

Mae'r mesur cyfartalog o fewn Band C, gyda chyfartaledd o 66.38.

Perfformiad DEC y Safle 2022-2023



Perfformiad Amgylcheddol

Mae cyfartaledd perfformiad yr ystad wedi gostwng 4% ers yr adroddiad blaenorol. Roedd hyn oherwydd bod mesurau covid yn dal ar waith. Hynny yw, roedd system awyru awyr iach lawn yn hytrach na system awyru sy'n ailgylchredeg aer yn golygu bod mwy o ynni yn cael ei ddefnyddio.

4. Edrych i'r Dyfodol

Mae'r adroddiad Cyflwr yr Ystad 2022-2023 hwn yn edrych yn ôl ar flwyddyn lle roedd ein swyddfeydd yn dal i fod yn segur wrth i staff barhau i weithio o bell.

Arweiniodd cynnydd yn nifer y staff a ddaeth i'r swyddfa at gynnydd yn y ffigurau ar gyfer rhai meysydd perfformiad amgylcheddol, ond mae dangosyddion allweddol cyffredinol, fel allyriadau carbon, wedi gwella dros y flwyddyn. Roedd llai o wastraff wedi ei anfon i safleoedd tirlenwi, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn gwastraff a anfonwyd ar gyfer cynhyrchu pŵer.

Mae llawer o swyddfeydd dal ddim yn cael eu defnyddio ddigon ar draws yr ystad gyhoeddus o ganlyniad i weithio hybrid a gweithio gartref yn ystod y pandemig. Er bod effeithlonrwydd Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru wedi gwella'n sylweddol ers 2015, yr her yn y blynyddoedd i ddod fydd sicrhau bod swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl.

O ystyried yr ymrwymiad i ystad wasgaredig, bydd cyfleoedd i wneud rhagor o welliannau effeithlonrwydd yn y dyfodol yn dibynnu i raddau helaeth ar ddefnyddio'r adeiladau sy'n cael eu cadw fwy, a hynny drwy osod i bartneriaid yn y sector cyhoeddus.

Atodiad 1: Data allweddol ar gyfer swyddfa yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2023

Cyfeiriad	Cyfanswm perchnogaeth Llywodraeth Cymru NIA	Metr sgwâr NIA	Staff Snowdrop 2023 (gan gynnwys contractwyr sy'n defnyddio gofod Llywodraeth Cymru)	Snowdrop metr sgwâr fesul aelod o staff	Cymhareb Ddesg	Deiliadaeth	Rhent ac Ardrethi Blynyddol O/G	Ardrethi a Dalwyd 2023	Rhent gan gynnwys TAW
CP1 a CP2 Parc Cathays, Caerdydd	37,923	37,923	3,139.6	12	0.89	○	£5,294,485	£1,278,650	£3,430,000
Rhan Dau/Rhan 5, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd	1,792	1,792	146.7	12	1.19	■	£2,707	£0	£0
Tŷ'r Afon, Ffordd Bedwas, Bedwas, Caerffili	2,907	2,486	204.9	12	1.01	■	£245,517	£123,318	£374,490
Rhyd-y-Car, Merthyr Tudful	6,097	6,097	593.3	10	0.98	○	£1,261,823	£264,825	£825,000
Adeilad y Goron, Heol Picton, Caerfyrddin	3,791	2,920	283.9	10	0.55	○	£239,737	£106,826	£202,100
Havenshead BP, Aberdaugleddau		155	24.8	6	0.73	■	£18,944	£7,089	£17,100
Llys-y-Ddraig, Parc Busnes Penlle'r-gaer, Abertawe	1,792	1,792	301.8	6	0.66	○	£217,715	£80,785	£148,180
Rhodfa Padarn, Aberystwyth, SY23 3UR	6,262	5,764	288.5	20	1.07	○	£974,830	£260,979	£544,325
Neuadd y Sir Powys, Spa Road East, Llandrindod		886	108.8	8	0.64	■	£173,821	£20,196	£86,250
Tŷ Ladywell, Y Drenewydd		1,166	72.5	16	0.80	■	£187,460	£35,511	£126,018
Timekeepers Office, Caergybi		55	6.0	9	1.33	■	£22,632	£3,531	£5,000
Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno	7105	6129	412.5	15	1.04	○	£1,077,500	£323,274	£541,497
1 Grosvenor Lodge, Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1DB		318	20.2	16	1.04	■	£46,014	£13,509	£40,800
Ystafelloedd 5, 7 ac 8 Bloc A, Doc Fictoria, Caernarfon		738	91.3	8	0.83	■	£125,753	£15,916	£76,200
Llawr gwaelod, Uned 2, Oak House, Parc Busnes Celtic Springs, Casnewydd		448	41.5	11	0.82	■	£20,996	£26,349	£63,600

○ Rhydd-ddaliad

■ Lesddaliad

Atodiad 2: Arbedion a gyflawnwyd o eiddo a adawyd 2015-2023

	Dyddiad gadael	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2015-16	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2016-17	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2017-18	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2018-19	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2019-20	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2020-21	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2021-22	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2022-23	Cyfanswm 8 mlynedd
Tŷ Wynchway, Hwlfordd	01/02/2016	£21,861	£131,168	£131,168	£131,168	£131,168	£131,168	£131,168	£131,168	£940,037
Ffordd Arran, Dolgellau	31/03/2016	-	£7,073	£7,073	£7,073	£7,073	£7,073	£7,073	£7,073	£49,511
Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth	31/03/2016	-	£29,094	£29,094	£29,094	£29,094	£29,094	£29,094	£29,094	£203,658
Tŷ Aberhonddu, Caerffili	31/05/2017	-	-	£106,280	£127,606	£127,606	£127,606	£127,606	£127,606	£744,310
Tŷ'r Llyn, Abertawe	23/06/2017	-	-	£371,811	£481,245	£481,245	£481,245	£481,245	£481,245	£2,778,036
Yr Hen Ficerdy, Caergybi	12/01/2018	-	-	£7,110	£33,271	£33,271	£33,271	£33,271	£33,721	£174,815
Hill House, Heol Picton Caerfyrddin	01/04/2018	-	-	-	£139,078	£139,078	£139,078	£139,078	£139,078	£695,390
Parc Bocam, Pen-y-bont ar Ogwr	22/06/2018	-	-	-	£92,863	£119,770	£119,770	£119,770	£119,770	£571,943
Adeiladau'r Goron, Gogledd Penrallt, Caernarfon	27/07/2018	-	-	-	£242,337	£356,666	£356,666	£356,666	£356,666	£1,669,001
Tŷ Clarence, Casnewydd	30/05/2019	-	-	-	-	£79,381	£94,999	£94,999	£94,999	£364,378

	Dyddiad gadael	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2015-16	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2016-17	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2017-18	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2018-19	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2019-20	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2020-21	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2021-22	Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2022-23	Cyfanswm 8 mlynedd
Tŷ Southgate, Caerdydd	19/09/2019	-	-	-	-	£87,042	£163,766	£163,766	£163,766	£578,340
33 Heol Casnewydd, Caerdydd	31/03/2020	-	-	-	-	-	£4,340	£4,340	£4,340	£13,020
Plas Carew	12/02/2021	-	-	-	-	-	£72,318	£561,619	£561,619	£1,195,556
Uned 22 I.E Llandochoau, Heol Penarth, Caerdydd	23/03/2021	-	-	-	-	-	£2,588	£118,089	£118,089	£238,766
Adeiladau'r Goron, Spa Road East, Llandrindod	31/07/2021	-	-	-	-	-	-	£344,938	£518,116.75	£863,055
Canolfan QED, Trefforest	30/09/2022	-	-	-	-	-	-	-	£328,098	£328,098
Cyfanswm Arbedion		£21,861	£167,335	£652,536	£1,283,735	£1,591,394	£1,763,432	£2,713,172	£3,214,449	£11,407,914

Ni chafwyd gwared ar unrhyw eiddo yn ystod 2016-17. Fodd bynnag, cafwyd arbedion cyson o £167,335 ar gyfer eiddo a adawyd yn 2015-16.

Noder. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael swyddfa loeren newydd mewn adeilad ar les yng Nghaerdydd.

Noder Mae Llywodraeth Cymru wedi cael swyddfa newydd ar les yn Noc Fictoria, Caernarfon.

Noder Mae Llywodraeth Cymru wedi cael swyddfa newydd ar les yn Oak House, Celtic Springs, Casnewydd.

Noder Mae Llywodraeth Cymru wedi cael swyddfa newydd ar les yn Neuadd y Sir Powys, Llandrindod.

Atodiad 3: Crynodeb o Berfformiad 2018-2023

	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023	Newid (2022-23)
Cyflwr yr Ystad							
Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad metr sgwâr	80,325	76,836	76,181	69,850	68,669	68,669	0.00%
Nifer yr eiddo	20	18	17	15	15	15	0.00%
Cost yr Ystad £	£18.477m	£17.920m	£20.420m	£18.413m	£18.808m	£18.951m	0.76%
Rhent £	£5,600m	£5.328m	£7.360m	£6.507m	£6.452m	£6.481m	0.450%
Cyfraddau £	£2.810m	£2.863m	£2.877m	£2.573m	£2.561m	£2.561m	0.00%
Arall £	£10.067m	£9.729m	£10.183m	£9.333m	£9.796m	£9.910m	1.16%
Effeithlonrwydd							
Cost fesul FTE	£3,576	£3,428	£3,778	£3,337	£3,329	£3,304	-0.75%
Effeithlonrwydd Cost – £ fesul metr sgwâr	£230.02	£233.22	£268.04	£263.61	£273.90	£275.98	0.76%
Rhent £ fesul metr sgwâr	£69.71	£69.34	£96.60	£93.15	£93.96	£94.38	0.45%
Ardrethi £ fesul metr sgwâr	£34.98	£37.26	£37.76	£36.84	£37.29	£37.29	0%
Arall £ fesul metr sgwâr	£125.33	£126.62	£133.68	£133.62	£142.65	£144.32	1.17%
Effeithlonrwydd gofod (metr sgwâr) fesul FTE	15.5	14.7	14.1	12.6	12.2	12.0	-1.64%
Metr sgwâr fesul gweithfan	12.63	12.91	12.85	13.35	12.54	12.75	1.67%
Gweithfannau fesul FTE	1.23	1.14	1.10	0.95	0.97	0.94	-3.09%

	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023	Newid (2022-23)
Perfformiad Amgylcheddol							
Cyfanswm Allyriadau (t CO ₂)	5376	4236	3713	3,500	3,000	2,890	-3.67%
Trydan (t CO ₂)	4259	3193	2647	1,896	1,500	1,542	2.8%
Nwy (t CO ₂)	1117	1043	1066	1,604	1,400	1,348	-3.71%
Cyfanswm gwastraff (Tunelli)	350	372	284	50	72	74	2.78%
Tirlenwi (% o'r cyfanswm)	12	1	1	2	2	0.5	-75%
Ailgylchu (% o'r cyfanswm)	88	88	82	69	66	81	22.7%
Gwastraff i Ynni (% o'r cyfanswm)	-	11	17	29	14	17.5	25%
Dŵr (metrau ciwbig/person/ y flwyddyn)	6.3	6.2	5.6	2.1	2.5	2.9	16%

Atodiad 4: Crynodeb o Berfformiad Eiddo Arbenigol yr Ystad

Cyfeiriad	Rheswm dros eithrio	Arwynebedd Llawr	Cyfanswm Costau Blynyddol 2016-2017	Cyfanswm Costau Blynyddol 2017-2018	Cyfanswm Costau Blynyddol 2018-2019	Cyfanswm Costau Blynyddol 2019-2020	Cyfanswm Costau Blynyddol 2020-2021	Cyfanswm Costau Blynyddol 2021-2022	Cyfanswm Costau Blynyddol 2022-2023
25 Victoria Street, Llundain	Swyddfa y tu allan i Gymru	304	£334,994	£479,844	£435,749	£358,403	£371,782	£445,258	£435,543
Cyfleuster Arbenigol, Cil-y-coed	Defnydd Arbenigol	Amh	£523,807	£768,651	£544,002	£597,208	£669,404	£602,578	£718,280
Canolfan Rheoli Traffig, Coryton, Caerdydd	Defnydd Arbenigol (traffig)	763	£230,799	£236,951	£298,460	£174,748	£176,786	£197,856	£170,668
Canolfan Rheoli Traffig, Morfa BP, Ffordd Sam Pari, Morfa	Defnydd Arbenigol (traffig)	1,128	£165,272	£190,144	£179,382	£127,542	£133,418	£174,659	£198,233
Plt 233, Pafiliwn Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt	Defnydd Arbenigol (Pafiliwn)	220	£50,600	£74,932	£69,050	£47,438	£45,446	£45,808	£69,847
Adeiladau Arbenigol Materion Gwledig, Sir Gaerfyrddin	Defnydd Arbenigol	452	£49,592	£34,123	£36,957	£36,104	£35,091	£35,998	£37,807